CPS

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Datganiad Disgwyliadau ar gyfer y Bar

© Hawlfraint y Goron Mawrth 2007

Cynnwys

Rhagir 2

1. Cyd-destun 3

2. Pwrpas 3

3. Disgwyliadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 4

3.1 Datganiad Polisi a Gweithredoedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 4

3.2 Monitro cydraddoldeb mewn cyflogaeth a chyhoeddi data 4

3.3 Ymdrin â thangynrychiolaeth a gosod amcanion mesuradwy 5

3.4 Gweithredu Cadarnhaol

3.5 Hyfforddiant ym maes Cydraddoldeb ac Amrywiaeth 6

3.6 Ymgyfarwyddo ac ymrwymiad i bolisïau allweddol y CPS 7

3.7 Mynediad cyfartal at waith a dyrannu gwaith yn deg o fewn Siambrau 7

3.8 Materion Cydraddoldeb tuag at Bobl Anabl

3.9 Mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb rhiant a gweithio hyblyg 8

3.10 Delio â chwynion 8

3.11 Adolygu ac adrodd am gyraeddiadau yn erbyn y Datganiad Disgwyliadau 9

Atodiad
Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol 10

Rhagair

Mae'n bleser gennym gyflwyno Datganiad Disgwyliadau y CPS ym maes Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer y Bar. Mae'r Datganiad Disgwyliadau hwn yn adeiladu ar waith cynharach ar y cyd ar gydraddoldeb ac amrywiaeth a Chôd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar.

Rydym yng nghanol diwygiad pellgyrhaeddol yn y System Cyfiawnder Troseddol. Rhan o hynny yw moderneiddio'r berthynas rhwng y CPS a'r Bar. Mae'r moderneiddio hwn yn golygu sefydlu set gytûn o safonau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth.

Fe fu ymgynghori manwl ynghylch y Datganiad. Rydym yn dra diolchgar am y sylwadau a ddaeth i law ac a ddylanwadodd ar y ffurf derfynol, gan gynnwys y gofynion adrodd.

Nod syml, cyffredin sydd i'r Datganiad Disgwyliadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hwn. Sef, darparu datganiad clir o ddisgwyliadau ar gydraddoldeb ac amrywiaeth ar gyfer setiau o Siambrau sydd ag aelodau yn erlyn neu'n dymuno erlyn ar ran y CPS.

Y mae manteision mewn mabwysiadu a gweithredu'r Datganiad Disgwyliadau hwn, o ran y CPS a'r Bar fel ei gilydd. Yn eu plith mae mwy o hyder bod y CPS a'r Bar yn bodloni eu dyletswyddau a'u hymrwymiadau cydraddoldeb pan fydd gwasanaethau cyfreithiol yn cael eu sicrhau fel hyn; sicrwydd y ceir cysondeb mewn arferion cydraddoldeb; gwell arferion erlyn; gwell arferion recriwtio; Bar â thalentau mwy amrywiol sy'n addas ar gyfer erlyn ym Mhrydain yr 21ain ganrif.

Rydym yn disgwyl i bob Siambr sy'n gweithio i'r CPS ac sy'n dymuno gweithio i'r CPS weithredu'r Datganiad Disgwyliadau. Mae'n rhoi cyfle i ddangos cynnydd o ran arferion cydraddoldeb ac amrywiaeth.

Bydd Siambrau yn adrodd am eu cynnydd ar adegau penodol i Gyd-bwyllgor y Bar yn lleol a Chyd-bwyllgor Dewis Adfocadau'r CPS. Bydd amlder yr adrodd yn adlewyrchu maint y Siambrau, gyda setiau mawr yn adrodd am gynnydd yn flynyddol. Yn ychwanegol at adrodd am gynnydd fel hyn, bydd y CPS hefyd yn monitro.

Bydd y Datganiad Disgwyliadau yn dechrau cael ei weithredu ym mis Ebrill 2007, gyda'r adroddiadau cyntaf am gynnydd ar gyfer setiau mawr o siambrau yn cael eu cyflwyno flwyddyn yn ddiweddarach. Rydym yn hyderus y bydd o gymorth i wireddu'r weledigaeth gyffredin o gael Bar sy'n adlewyrchu'r cymunedau y mae'n eu gwasanaethu, ac sydd â'i arferion yn addas ar gyfer Prydain fodern ac amrywiol.

Ken Macdonald QC
Cyfarwyddwr Erlyniadau Cyhoeddus



Geoffrey Vos QC
Cadeirydd, Cyngor y Bar

1. Cyd-destun

1.1 Bydd y CPS yn defnyddio amrywiaeth o wasanaethau cyfreithiol allanol bob blwyddyn. Bydd y gwasanaeth yn gwario tua £130 miliwn o gyfanswm cyllideb flynyddol o £580 miliwn ar wasanaethau cyfreithiol allanol.

1.2 Mae'r CPS wedi ymrwymo ers tro i sicrhau enw da o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth ar draws ei holl weithgareddau ac i feithrin yr enw da hwnnw. Fel corff cyhoeddus mae gan y CPS hefyd ddyletswyddau cadarnhaol i hybu cydraddoldeb tuag at bobl anabl, cydraddoldeb o ran rhyw a chydraddoldeb hiliol ar draws ei weithgareddau, gan gynnwys ble bo'n berthnasol wrth sicrhau gwasanaethau allanol. Mae gan Gyngor y Bar ei hun ddyletswyddau cyffredinol i hybu cydraddoldeb o ran anabledd, rhyw a hil. Mae gan y CPS a Chyngor y Bar rwymedigaethau hefyd i sicrhau cydraddoldeb o ran rhywioldeb a chrefydd neu gred. Y mae rhwymedigaethau tebyg hefyd ar y ffordd o ran oedran.

1.3 Yn sgil yr ymrwymiad cadarn i hybu cydraddoldeb ac amrywiaeth a'n rhwymedigaethau cyfreithiol, mae'r CPS wedi penderfynu llunio datganiad clir o ddisgwyliadau cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda'r Bar.

1.4 Wrth ddisgrifio'r disgwyliadau hyn mae'r CPS yn cydnabod nad yw ein hamcanion a'n dyletswyddau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dirymu deddfau neu reoliadau eraill ym maes caffael cyhoeddus.

Canllawiau ar weithredu

1.5 Mae'r Datganiad Disgwyliadau Cydraddoldeb ac Amrywiaeth hwn yn adlewyrchu gofynion Côd Ymddygiad Cyngor y Bar a hefyd y Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer y Bar. Mae'r ail o'r rhain yn rhoi arweiniad ar sut i weithredu arferion da o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth mewn Siambrau a bydd o gymorth i Siambrau weithredu'r Datganiad hwn. Drwy gydol y Datganiad hwn, y mae croesgyfeirio clir yn nodi ble mae disgwyliadau'r CPS yn adlewyrchu Côd Ymddygiad Cyngor y Bar a'r Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer y Bar.

2. Pwrpas

2.1 Pwrpas y datganiad disgwyliadau hwn yw:

- darparu datganiad disgwyliadau clir a chryno i'r Bar ar gydraddoldeb ac amrywiaeth wrth wneud cais am waith ac wrth weithio i'r CPS;
- sicrhau bod y CPS yn gallu parhau i fodloni ei rwymedigaethau cyfreithiol i hyrwyddo cydraddoldeb pan fydd yn prynu gwasanaethau cyfreithiol allanol gan y Bar.

3. Disgwyliadau cydraddoldeb ac amrywiaeth

Elfennau o fframwaith i fynd i'r afael â chydraddoldeb ac amrywiaeth yw'r canlynol. Mae'r CPS yn disgwyl gweld fframwaith o'r fath yn ei le ac yn cael ei weithredu'n bendant yn Siambrau'r Bar ble bydd yn sicrhau gwasanaethau cyfreithiol.

3.1 Datganiad Polisi a Gweithredoedd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r CPS yn disgwyl i Siambrau ble bydd yn sicrhau gwasanaethau cyfreithiol:

- fod â datganiad polisi ysgrifenedig o'i ymrwymiadau o ran cydraddoldeb ac amrywiaeth
- bod â chynllun gweithredu ag amserlen neu set o weithredoedd mewn Cynllun Busnes Siambrau ehangach er mwyn gweithredu'r polisi hwn
- gweithredu'r polisi a'r cynllun gweithredu
- adrodd i'w JASC yn ôl gofynion y CPS ar gyflawniadau wrth weithredu'r Cynllun
- bod â swyddog cyfle cyfartal penodedig neu swyddog cydraddoldeb ac amrywiaeth (sydd hefyd yn ofynnol dan Gôd Ymarfer Cyngor y Bar paragraff 404.2(d))

Dylai'r datganiad polisi ymdrin â recriwtio disgyblion ac aelodau; dal gafael ar staff a datblygu gyrfa; hyfforddiant; mynediad cyfartal at waith a chyfleoedd o fewn Siambrau; newid rhesymol i hyrwyddo cydraddoldeb tuag at bobl anabl, o ran mamolaeth ac absenoldeb rhiant a gweithio hyblyg, ac ymdrin â chwynion am wahaniaethu ac aflonyddu; y canlyniadau y mae'r Siambrau yn ceisio eu cyflawni a rolau a chyfrifoldebau o ran y polisi. Mae'r disgwyliadau hyn yn gyson â Chodau Cyngor y Bar sy'n bodoli eisoes, yn benodol mae Côd Ymarfer Cyngor y Bar paragraff 404.2(d) yn mynnu bod Siambrau yn meddu ar bolisi cyfle cyfartal ysgrifenedig a fydd yn disgrifio polisïau'r Siambrau mewn perthynas â phob un o'r meysydd gweithredu yn y Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth.

3.2 Monitro cydraddoldeb

Mae'r CPS yn disgwyl i Siambrau ble bydd yn sicrhau gwasanaethau cyfreithiol:

- fonitro pob ymgeisydd ar gyfer tymor prawf ac aelodaeth yn ôl anabledd, ethnigrwydd a rhyw ac yn yr un modd monitro pob un a benodir;
- monitro holl staff, disgyblion ac aelodau y Siambrau;
- sicrhau bod canlyniadau'r monitro hwn ar gael yn gyhoeddus i'r Cyd-bwyllgor Dewis Adfocadau (JASC) lleol ac i'r CPS yn ôl y galw.

Mae'r disgwyliadau hyn yn gyson â pharagraff 1.16 Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar.

3.3. Ymdrin â thangynrychiolaeth mewn Siambrau

Mae'r CPS yn disgwyl i Siambrau ble bydd yn sicrhau gwasanaethau cyfreithiol:

- ddadansoddi data monitro recriwtio o leiaf bob blwyddyn;
- cymryd camau i unioni'r sefyllfa os bydd tangynrychiolaeth sylweddol o ran unrhyw grŵp penodol o gymharu â'u cynrychiolaeth yn y gronfa o ddarpar ymgeiswyr;
- cymryd camau i unioni'r sefyllfa os bydd gwahaniaethau sylweddol rhwng y rhai sy'n ymgeisio a'r rhai sy'n cael eu penodi i fwrw tymor prawf ac fel aelodau;
- cymryd camau, gan gynnwys gosod amcanion mesuradwy ble bydd angen o ran cynrychiolaeth yn ôl rhyw, ethnigrwydd ac anabledd er mwyn helpu i sicrhau Siambrau mwy cynrychioliadol (gan gynnwys staff, aelodau a disgyblion);
- canolbwyntio ymdrechion recriwtio ar fynd i'r afael â thangynrychiolaeth;
- pwyso a mesur ei ganlyniadau monitro yn erbyn meincnodau perthnasol gan gynnwys data am raddedigion ar gwrs galwedigaethol Cyngor y Bar a data am fwrw tymor prawf a dechrau casglu data am ymarferwyr anabl a myfyrwyr BVC. (Rhoddir canllawiau ynghylch y meincnodau perthnasau ym mharagraff 1.17 Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar);
- adrodd am gynnydd o ran ymdrin â thangynrychiolaeth.

Mae'r disgwyliadau hyn yn gyson â pharagraff 1.16 Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar. Mae rhagor o ganllawiau i Siambrau ar fonitro ac ymdrin â thangynrychiolaeth yn Atodiad E Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar.

3.4 Gweithredu Cadarnhaol

Dan rai amgylchiadau fe fydd yn briodol i Siambrau weithredu'n gadarnhaol i fynd i'r afael â thangynrychiolaeth sylweddol o safbwynt rhai grwpiau. Mae gweithredu cadarnhaol yn cyfeirio at fesurau y gall Siambrau eu dilyn yn gyfreithlon dan ddeddfwriaeth gwahaniaethu ar sail rhyw a chysylltiadau hiliol i fodloni anghenion arbennig neu i hyfforddi neu annog pobl o grŵp penodol sy'n cael ei dangynrychioli mewn gwaith penodol. Gan ddilyn y rhaglen gweithredu cadarnhaol, rhaid i'r rhai sy'n cymryd rhan gystadlu am unrhyw swyddi sefydlog yn gyfartal â'r holl ymgeiswyr eraill a rhaid i bob penodiad fod ar sail teilyngdod. Er enghraifft, gallai hyn ddigwydd os bydd tangynrychiolaeth barhaus o safbwynt menywod, neu aelodau o gymunedau Pobl dduon a lleiafrifoedd ethnig neu bobl anabl fel bargyfreithwyr o gymharu â'u cynrychiolaeth yn y gronfa ehangach o ymgeiswyr. Dan amgylchiadau o'r fath, mae'r CPS yn disgwyl i Siambrau ble bydd yn sicrhau gwasanaethau cyfreithiol:

- ystyried o ddifrif a sefydlu rhaglenni gweithredu cadarnhaol os bydd y dystiolaeth yn cyfiawnhau rhaglenni o'r fath;
- egluro rhesymeg a manteision gweithredu cadarnhaol wrth yr holl staff, aelodau, disgyblion a darpar ymgeiswyr.

- pwyso a mesur effaith unrhyw raglen gweithredu cadarnhaol a dod â'r rhaglen i ben unwaith y bydd y canlyniadau wedi'u cyflawni.

(Mae paragraff 2.25 Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar yn rhoi diffiniad o weithredu cadarnhaol cyfreithiol ac mae'n nodi'r gwahaniaeth rhwng hyn a gwahaniaethu cadarnhaol.)

Nid oes unrhyw waharddiad yn y ddeddfwriaeth ar wahaniaethu ar sail anabledd rhag cymryd mesurau cadarnhaol o blaid pobl anabl. Mae'n rhagweld y bydd mesurau o'r fath, gan gynnwys newidiadau rhesymol (gweler paragraff 3.8), yn cael eu cymryd. Mae disgwyl i Siambrau:

- annog pobl anabl i wneud cais i Siambrau;
- adolygu eu taflenni recriwtio a marchnata i gynnwys cyfeiriadau priodol at fynediad i bobl anabl;
- nodi lefel mynediad y Siambrau i bobl anabl;
- cynnig tymor prawf bach i fyfyrwyr anabl â chymwysterau priodol;
- cymryd camau priodol eraill o ran estyn allan.

Mae'r disgwyliadau hyn yn gyson â pharagraff 1.107 Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar sy'n disgrifio'r sefyllfa o ran deddfwriaeth anabledd.

3.5 Hyfforddiant ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth

Mae'r CPS yn disgwyl i Siambrau ble bydd yn sicrhau gwasanaethau cyfreithiol:

- sicrhau bod pob aelod, staff a disgybl yn derbyn hyfforddiant sylfaenol ar gydraddoldeb ac amrywiaeth sy'n cynnwys rhwymedigaethau cyfreithiol ac arferion da;
- sicrhau bod hyfforddiant cydraddoldeb ac amrywiaeth yn cynnwys pob llinyn cydraddoldeb gan gynnwys oedran, anabledd, ffydd neu gred, ethnigrwydd, rhyw a rhywioldeb;
- cyfuno materion cydraddoldeb ac amrywiaeth yn rhan o hyfforddiant arall a ddarperir ar gyfer staff, aelodau a disgyblion y Siambrau;
- cadw golwg ar hyfforddiant a hynny'n unol â datblygiadau cyfredol.

(Mae paragraff 1.8 Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar yn argymell bod o leiaf un aelod o'r pwyllgor dewis yn derbyn hyfforddiant mewn dulliau dewis teg.)

3.6 Ymgyfarwyddo ac ymrwymiad i bolisïau allweddol y CPS

Mae'r CPS yn disgwyl i Siambrau ble bydd yn sicrhau gwasanaethau cyfreithiol wneud yn siwr bod eu haelodau yn:

- gyfarwydd a chymwys o ran cymhwyso polisïau'r CPS wrth erlyn ar ran y CPS;
- dangos adnabyddiaeth fanwl ac ymrwymiad i weithredu polisïau trosedd casineb y CPS yn gyson ym meysydd trais yn y cartref, trosedd homoffobig, trosedd hiliol a chrefyddol a throsedd casineb tuag at bobl anabl;
- gallu bodloni anghenion cleientiaid amrywiol.

3.7 Mynediad cyfartal at waith a dyrannu gwaith yn deg o fewn Siambrau

Bydd y CPS yn cyfarwyddo aelodau Siambrau ar sail sgiliau a phrofiad priodol. Mae hyn yn golygu y gall y CPS gyfarwyddo erlynwyr arbenigol i erlyn troseddau penodol. Bydd cyfarwyddyd o'r fath ar sail sgiliau arbenigol a phrofiad a theilyngdod, nid ar nodweddion personol. Mae'r CPS yn cydnabod bod Clercod Siambrau yn chwarae rhan hanfodol yn y broses hon a phan fydd gwaith yn cael ei rannu neu ei ddychwelyd at Glercod, mae'n disgwyl y byddant yn dilyn yr un drefn o rannu'n deg ar sail sgiliau, profiad a theilyngdod.

Mae'r CPS yn disgwyl i Siambrau ble bydd yn sicrhau gwasanaethau cyfreithiol:

- sicrhau mynediad cyfartal at yr ystod eang o waith sydd ar gael;
- sicrhau bod gwaith yn cael ei rannu'n deg o fewn Siambrau;
- monitro mynediad y disgyblion a'r bargyfreithwyr ieuaf at waith yn ôl anabledd, ethnigrwydd a rhyw;
- monitro'r modd y bydd pob darn o waith sydd wedi'i ddychwelyd a gwaith heb enw sy'n dod i Siambrau yn cael ei rannu i'r bargyfreithwyr, yn ôl anabledd, ethnigrwydd a rhyw;
- mynd i'r afael ag unrhyw wahaniaethau sylweddol yn y mynediad at waith a rhannu gwaith;
- ailrannu unrhyw waith ar sail sgiliau a phrofiad gan sicrhau nad oes unrhyw wahaniaethu wrth rannu gwaith;
- darparu canllawiau priodol i Glercod ar rannu gwaith yn deg gan gynnwys rhannu gwaith sydd wedi'i ddychwelyd.

(Mae paragraff 1.46 Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar yn cyfeirio at ddyletswyddau Siambrau i gyfarwyddo eu clercod i rannu gwaith yn deg a monitro'r modd y rhennir gwaith. Mae paragraffau 1.36 i 1.52 Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar hefyd yn cyfeirio at fynediad teg a rhannu gwaith yn deg. Hefyd y mae paragraff 404.2(b) Côd Ymarfer Cyngor y Bar yn mynnu bod Penaethiaid Siambrau yn sicrhau bod materion eu Siambrau yn cael eu cynnal mewn ffordd sy'n deg a chyfiawn i fargyfreithwyr a disgyblion.)

3.8 Newidiadau rhesymol i hybu cydraddoldeb tuag at bobl anabl

Cydnabyddir bod materion cydraddoldeb tuag at bobl anabl wedi datblygu llai yn y sector hwn a hefyd yn galw am ymatebion ymarferol penodol.

Yn y cyd-destun hwn mae'r CPS yn disgwyl i Siambrau ble bydd yn sicrhau gwasanaethau cyfreithiol:

- gymryd camau i wneud aelodau a staff yn fwy ymwybodol o'u rhwymedigaethau dan ddeddfwriaeth anableddau;
- hysbysebu eu hymrwymiad i ddarparu newidiadau rhesymol o ran recriwtio aelodau, staff a disgyblion a darparu gwasanaethau cyfreithiol;
- ymateb yn briodol i geisiadau am newidiadau rhesymol.

(Mae'r disgwyliadau hyn yn gyson â pharagraffau 1.2 ac 1.3 Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar. Hefyd yn berthnasol y mae Atodiad D i ganllawiau Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar ynghylch newidiadau rhesymol o ran gofynion tymor prawf a thenantiaeth.)

3.9 Mamolaeth, tadolaeth, absenoldeb rhiant a gweithio hyblyg

Mae'r CPS yn disgwyl i Siambrau ble bydd yn sicrhau gwasanaethau cyfreithiol:

- fod â pholisi ysgrifenedig ar absenoldeb mamolaeth, tadolaeth ac absenoldeb rhiant sy'n cynnwys manylion:

  (a) hyd y cyfnod absenoldeb a gynigir yn ddirent a chostau'r Siambrau;

  (b) hawl yr aelod i ddychwelyd i'r Siambrau ar ôl cyfnod o absenoldeb penodedig.

- bod â pholisi ysgrifenedig sy'n caniatáu i aelodau Siambrau gymryd seibiant gyrfa neu weithio'n hyblyg.

3.10 Ymdrin â chwynion

Mae'r CPS yn disgwyl i Siambrau ble bydd yn caffael gwasanaethau cyfreithiol:

- fod â pholisi cwynion gan gynnwys aflonyddu, sy'n disgrifio safonau ymddygiad derbyniol ac annerbyniol a threfniadau ar gyfer ymdrin â chwynion am ymddygiad o'r fath;
- bod â threfn ar gyfer datrys cwynion yn anffurfiol a chyflym;
- bod â threfn ffurfiol ar gyfer ymchwilio a datrys cwynion a ddaeth yn rhai ffurfiol;
- bod â datganiad polisi clir sy'n trin torri polisïau a threfniadau cydraddoldeb ac amrywiaeth fel mater disgyblu.

(Mae hyn yn adlewyrchu Atodiadau E ac F Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth Cyngor y Bar ar aflonyddu ac ar gwynion ac achwyniadau.)

3.11 Adolygu ac adrodd am gyraeddiadau yn erbyn y Datganiad Disgwyliadau

Mae'r CPS yn mynnu bod Siambrau yn adrodd am gynnydd yn erbyn y Datganiad. Bydd y CPS yn cefnogi'r adrodd hwn gan Siambrau gyda'i weithgarwch adolygu ei hun. Mae gan y CPS system adrodd cynnydd ar sawl lefel er mwyn gwirio cynnydd wrth weithredu'r Datganiad hwn. Mae'r system adrodd hon yn golygu adrodd ar wahanol adegau ar sail maint Siambrau. Mae'r system adrodd ar wahanol lefelau yn golygu:

1. adrodd blynyddol ar gyfer setiau mwy o Siambrau (h.y. setiau gyda 45 neu fwy o aelodau ac sy'n gwneud gwaith neu'n dymuno gwneud gwaith i'r CPS);

2. adrodd bob dwy flynedd ar gyfer setiau canolig o Siambrau (h.y. setiau sy'n cynnwys 20 i 45 aelod ac sy'n gwneud gwaith neu'n dymuno gwneud gwaith i'r CPS); ac

3. adrodd bob tair blynedd ar gyfer setiau llai o Siambrau (h.y. setiau sy'n cynnwys dan 20 aelod ac sy'n gwneud gwaith neu'n dymuno gwneud gwaith i'r CPS).

Bydd yr adroddiadau cynnydd yn cael eu paratoi'n unol â ffurf adrodd safonol y CPS. Disgwylir i'r adroddiad cynnydd fod yn ddatganiad clir, cryno a gwiriadwy o'r sefyllfa a'r cynnydd ar adeg benodol yn y cylch adrodd. Bydd yr adroddiadau yn cael eu cyflwyno i'r Cyd-bwyllgor Dewis Adfocadau (JASC) ar gyfer eu cylchdaith. Dylid rhoi copi o'r adroddiadau i Brif Erlynydd y Goron yn lleol a hefyd i Gadeirydd JASC ac Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y CPS ym Mhencadlys y CPS. (Mae hyn yn adeiladu ar yr arferion presennol ble bu JASC yn derbyn dadansoddiadau o ddata ethnig a rhyw oddi wrth Siambrau).

Bydd y JASC yn adolygu'r adroddiad gan bob Siambr a phenderfynu a yw'n bodloni disgwyliadau'r CPS, neu'n cynnwys cynlluniau realistig i'w bodloni. Os bydd y JASC o'r farn y dylai Siambrau wneud mwy i gydymffurfio â disgwyliadau'r CPS, bydd Siambrau yn cael cyfle i wella eu systemau a'u prosesau. Yn y pen draw, os na all Siambrau ddangos eu bod yn bodloni disgwyliadau'r CPS, neu eu bod wedi trefnu amserlen resymol a chynlluniau realistig i'w bodloni, rhaid i'r CPS benderfynu a yw'n dymuno parhau i anfon gwaith at y Siambrau hynny.

Cyn i unrhyw benderfyniad gael ei gymryd, bydd Pennaeth y Siambrau yn cael cyfle i drafod y casgliadau gyda Chadeirydd JASC ac Arweinydd y Gylchdaith. Bydd Pennaeth y Siambrau yn cael cyfle i gyflwyno achos neu roi cynllun rhesymol gydag amserlen i fodloni disgwyliadau'r CPS. Cymerir gofal i sicrhau na fydd aelodau unigol y Siambrau yn colli cyfle i wneud gwaith i'r CPS oherwydd bod eu Siambrau yn methu bodloni disgwyliadau'r CPS, heb gael cyfnod rhesymol o amser i wneud gwelliannau angenrheidiol.

Gofynnir i ymgeiswyr newydd ar gyfer rhestrau'r CPS gadarnhau bod gan eu Siambrau bolisïau sy'n bodloni disgwyliadau'r CPS, o bosib gan gyfeirio at adroddiad blynyddol diwethaf y Siambrau ar gyfer JASC neu fod gan eu Siambrau gynllun realistig ac amserlen ar gyfer bodloni disgwyliadau'r CPS.

Yn ychwanegol at yr adolygiad sylfaenol a'r trefniadau adrodd a ddisgrifir uchod, bydd Uned Cydraddoldeb ac Amrywiaeth y CPS trwy ei thîm o Ymgynghorwyr Prosiectau a Pherfformiad rhanbarthol yn cynnal cyfres o ymweliadau monitro blynyddol ar hap, ond a gyhoeddir ymlaen llaw, gan adolygu perfformiad y Siambrau yn erbyn y Datganiad Disgwyliadau hwn. Bydd hyn yn cefnogi a chyd-fynd â'r asesiad a gyflawnir trwy system JASC a ddisgrifir uchod.

Atodiad

Ffynonellau gwybodaeth ychwanegol

1. Cyngor y Bar, Côd Ymarfer.
2. Cyngor y Bar, Côd Cydraddoldeb ac Amrywiaeth ar gyfer y Bar (Tach 2004).
3. Comisiwn Cydraddoldeb Hiliol, Canllaw i Gydraddoldeb Hiliol a Chaffael Gwasanaethau Cyhoeddus 2002-03.
4. Deddf Cysylltiadau Hiliol 1976.
5. Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd 1995.
6. Deddf Gwahaniaethu ar Sail Rhyw 1975.

CPS

Cefnogir gan